

Cronfa Gwaddol Dr Dewi Davies



Meini prawf cyllid: sefydliadau cymunedol a gwirfoddol

Mae Cronfa Waddol Dr Dewi Davies yn rhoi cymorth i'r canlynol:

- Grwpiau a sefydliadau sy'n gweithio i fynd i'r afael â thlodi ac ynysu gan gynnwys tlodi tanwydd a phroblemau gwledig
- Prosiectau sy'n gweithio gyda'r genhedlaeth hŷn i leihau unigrwydd
- Grwpiau a sefydliadau sy'n cefnogi'r gwaith o hyrwyddo a dysgu'r Iaith Gymraeg, Diwylliant Cymreig a Threftadaeth Gymreig
- Magu hyder ac ehangu gorwelion unigolion nad oes ganddynt lawer o adnoddau
- Unigolion talentog er mwyn iddynt ddilyn eu dyheadau e.e. bwrsariaethau, cyfarpar, offerynnau

Grantiau ar gael

Gall unigolion, grwpiau cymunedol, elusennau a phrosiectau lleol wneud cais am grantiau rhwng £500 a £5,000 y flwyddyn am hyd at dair blynedd.

Lle y ceir achos eithriadol ar gyfer cymorth, gellir dyfarnu grantiau o hyd at £10,000. Rhaid i'r cais ddangos angen clir am gymorth ariannol, caledi ariannol neu anghenion cymorth ychwanegol

Pwy all wneud cais?

Unigolion, grwpiau a sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl sy'n byw yn yr Ardaloedd Allbwn Uwch (LSOAs) haen isaf fel y'u gelwir yn fwy cyffredin:

Yn Sir Gaerfyrddin :

- Cenarth,
- Cynwyl Elfed 1,
- Llanfihangel ar Arth 1 & 2,
- Llangeler
- Llanybydder 1 & 2.

Yng Ngheredigion:

- Aberporth 1 a 2
- Beulah
- Capel Dewi
- Aberteifi Mwldan
- Aberteifi Rhyd y Fuwch
- Aberteifi Teifi,
- Llandyfriog
- Tref Llandysul
- Llanwenog
- Penbryn, Pen-parc 1 a 2
- Troedyaaur

Towns of Cardigan:

- Aberporth
- , Newcastle Emlyn,
- Llandysul
- Llanybydder ynghyd â'r pentrefi cyfagos

Sut i wneud cais?

Rhaid i bob ymgeisydd gwblhau ffurflen gais sydd ar gael ar ein gwefan. Cofiwch:

- ni roddir grantiau'n ôl-weithredol h.y. ar gyfer costau sydd eisoes wedi codi cyn derbyn ein
- llythyr yn cynnig grant a chyn llofnodi a dychwelyd yr amodau a thelerau
- nid yw grantiau ar gael i gefnogi codi arian ar ran grwpiau ac elusennau eraill.
- rhaid gwario'r grant yn llawn o fewn un flwyddyn o dderbyn ein llythyr o gynnig
- rhaid i'r cais ddangos angen clir am gymorth ariannol, caledi ariannol neu anghenion
- cymorth ychwanegol

Cyllid Blwyddyn Lluosog

Rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw hi i grwpiau allu cynllunio ar gyfer y dyfodol a bod cael cyllid diogel yn gallu rhoi'r hyder a'r sicrwydd i chi ddatblygu eich prosiect dros y tymor hir. Mae Cronfa Waddol Dr Dewi Davies bellach yn cynnig cyfle i grwpiau wneud cais am gyllid aml-flwyddyn o hyd at dair blynedd ond bydd hefyd yn parhau i gynnig cyllid prosiect 1 flwyddyn neu eitem gyfalaf bach.

Rydym yn gobeithio gallu gwneud o leiaf un grant tair blynedd y flwyddyn. I gael eich ystyried am grant tair blynedd, cwblhewch adran ychwanegol y ffurflen gais sy'n nodi sut rydych yn bwriadu datblygu eich prosiect dros y cyfnod o gyllid y gwneir cais amdano. Bydd eich cais yn dal i gael ei ystyried am gyllid blwyddyn os nad ydych yn llwyddiannus gyda grant tair blynedd.

Rydym hefyd yn cydnabod yr her o ddod o hyd i gyllid craidd, yn enwedig yn y tymor hir. Gall grwpiau ymgeisio am gyllid tuag at gostau craidd am hyd at dair blynedd, ar yr amod y gall y grŵp ddarparu cyfrifon am o leiaf y 12 mis diwethaf ac mae'r swm y gwneir cais amdano yn llai na 50% o'ch trosiant blynyddol. Er enghraifft, i wneud cais am grant o £1,000 y flwyddyn, dylai eich incwm blynyddol fod o leiaf £2,000.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

Bwriad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n gofyn i sefydliadau yng Nghymru ystyried effeithiau tymor hir eu penderfyniadau, i weithio'n well gyda phobl a cymunedau a gyda'i gilydd a rhwystro problemau parhaus rhag codi, megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid hinsawdd.

Rydym yn awyddus i annog sefydliadau i feddwl nid yn unig am y gymuned ble maen nhw'n byw ac yn gweithio ynddi, ond hefyd sut mae'u gwaith yn gydnaws â ac yn cyd-fynd â gwasanaethau a gweithgareddau grwpiau a sefydliadau eraill, rhai gwirfoddol a rhai statudol.

Fe hoffen ni i chi ystyried sut y gallai'ch sefydliad weithio gydag eraill er mwyn ychwanegu gwerth a gweithio mewn partneriaeth yn hytrach na chystadlu. Cofiwch egluro yn eich cais eich cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn ogystal ag ar gyfer y presennol. Fe hoffen ni weld sut mae grwpiau'n gweld effeithiau tymor hir eu penderfyniadau er mwyn gallu gweithio gyda, ar y cyd, ag eraill.

